LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 29 – Yr Haf, 2013

"Gwraaaag!! Gad fi allan o'r *#* cratsh 'ma'r **#**!!"

Parot Nant y March

HEFYD YN Y RHIFYN HWN –

- ADAR, PEL-DROED A RYGBI
- TEITHIAU STINIOG, LLETY WALTER A PISTYLL
- GWEITHGAREDDAU'R GAEAF

A LLAWER LLAWER MWY!

ER BUDD ADAR A BYD NATUR

Golygyddol

Haleliwia! Mor braf oedd cael haf – bron i fis cyfan ar ei hud o droiad y rhod. Mae nhw'n d'eud bod y tywydd ar y dydd byrraf [troiad y rhod] yn debyg o bara deugain niwrnod – wel, 'im cweit hynny eleni, ond dew' mi oedd yn dda'i gael o. Cyfle gobeithio i'r adar, sy' wedi diodda tymhorau nythu trychinebus a diffyg hafau call y blynyddoedd d'wytha 'ma, i ddechrau codi yn eu holau. Bydd yn ddifyr gweld canlyniadau'r arolygon nythu am eleni pan fyddant ar gael, i weld os lwyddon nhw i gael mantais o haf braf 2013 neu beidio.

Criw taith Coed Lletywalter a Chwm Nantcol: Gareth, Dewi, Rhodri (y peth mawr yn y cefn), Sian (o'i flaen o), Gwennan, Anet a Haf (llun: Huw Dafydd, sy' tu ôl i'r camera). Gweler adroddiad oddimewn.

Yr Atlas Nythu

Da gweld y bydd Atlas Adar Nythu Gogledd Cymru yr cael ei lawnsio ar Hydref 1af yn RSPB Conwy (gwahoddiad i ***gyfranwyr*** yn unig ydi hwn). Cyfranodd dros 700 o wirfoddolwyr i'r fenter, yn cynnwys aelodau o'n Cymdeithas ni wrth gwrs, a thros y pum tymor nythu (2008 - 2012) casglwyd dros 200,000 o gofnodion. Bu inni hefyd 'noddi' rhai o'r adar yn yr Atlas.

Gweilch yn bla, bron (Hwrê!)

Er gwaetha'r cychwyn hwyr a'r gaeaf estynedig – roedd hi'n hirlwm go iawn yndoedd? – mi fu'n dymor da i'r gweilch Cymreig.

Gweilch Morfa Dyfi – cyrraedd yn hwyr oherwydd y tywydd ac yna Monty (y ceiliog), druan bach, yn methu cael yr ieir niferus ddaeth ato, i setlo. Ond o'r diwedd, Glesni'n ei siawnsio hi – dodwy'n y 3dedd wythnos ym Mai; deor ddechrau Gorffennaf a'r ddau gyw yn cael eu modrwyo ddechrau Awst. Er eu bod yn hwyr iawn mae eu siawns o lwyddo yn dal yn uchel – 'mond iddynt gael chware teg!

Gweilch Morfa Glaslyn – yn ôl eu harfer roedd Gweilch y Glaslyn yn dipyn llai anwadal na rhai y Ddyfi – cyrraedd ar Fawrth 24ain; yr ŵy cyntaf Ebrill 6ed; y cyw cyntaf yn deor Mai 15fed a'r ddau gyw yn cael eu modrwyo ar Fehefin 18fed. Eleni ydi'r tymor diwetha i'r RSPB fod yn ymwneud â'r safle. O hyn ymlaen bydd y cynllun yng ngofal Cwmni Cymunedol *Bywyd Gwyllt Glaslyn Wildlife.* Pob lwc, maent yn haeddu ein cefnogaeth. Am fwy o fanylion ewch i'r wefan: www.bywydgwylltglaslynwildlife.com.

LLYGAD BARCUD - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

Rhif 29 – Yr Haf, 2013

Golygyddion –
Rhodri Dafydd (ANC) a Twm Elias (PTyB)

Cyfranwyr –
Twm Elias, Rhodri Dafydd, Gareth Jones

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES
Llywyddion Anrhydeddus –
Iolo Williams
Anwen Breeze Jones

Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth –
Brian Paul, Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–
Rhodri Dafydd, 2 Maes Llydan, Capel Garmon, Llanrwst Conwy LL26 0RN, (01690) 710 312

Am fwy o wybodaeth a ffurflen i ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch â Brian Paul.

Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.
Anfoner unrhyw ddeunydd at un o'r Golygyddion cyn diwedd Tachwedd os gwelwch yn dda

Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr ***Llygad Barcud***. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)

Cyfranwch i'r wefan a chwiliwch am ôl-rifynnau Llygad Barcud:
www.cymdeithastedbreezejones.org.uk

Taith yn ardal Stiniog

Yr oedd Ted Breeze Jones yn adnabyddus fel 'Dyn yr Adar' ond hefyd fel un o 'Hogia Stiniog'; yno y cafodd ei fagu ac yno y bu'n byw ac yn gweithio am y rhan helaethaf o'i oes. Yr oedd yn adnabod ardal fel cefn ei law ac yr oedd yn gwybod yn union pa adar oedd i'w gweld ym mhle. Yr oedd bob amser yn falch iawn o'r cyfoeth naturiol a geir yn ardal Stiniog.

Athro ydoedd Ted wrth ei reddf ac yr oedd wrth ei fodd yn tanio diddordeb plant mewn Byd Natur. Pan oeddwn yn ei ddosbarth yn Standard III, Ysgol y Bechgyn, Maenofferen yr oeddwn wrth fy modd pan yn medru dod â rhywbeth i'w roi ar y 'Bwrdd Natur' oedd yn cael lle pwysig iawn yn y dosbarth. Fel un na fu erioed yn hoff iawn o'r bêl droed, uchafbwynt y gwersi Addysg Gorfforol i mi oedd pan oedd Ted (y reffari) yn stopio y gêm yn stond am funudau er mwyn tynnu ein sylw ni'r plant at ryw fwncath a oedd yn hedfan dros y cae!

Roedd yn beth digon annisgwyl nad oedd Cymdeithas Ted erioed wedi trefnu taith o gwmpas cynefin Ted, ond aeth Twm ati i wneud iawn am hyn drwy ofyn i Dewi Jones, un o aelodau mwyaf selog y Gymdeithas, a fedrai ef awgrymu taith yn ardal Stiniog.

Awgrymodd Dewi daith o rhyw saith milltir, gan gychwyn o gilfan Coed Cymerau ac a fyddai'n mynd o gwmpas Llyn Ystradau.

Wythnos cyn y daith fe aeth Gwennan a minnau gydag ef i wneud yn siwr bod pob llwybr yn dal yn agored ac er mwyn cael syniad am beth y gallem ddisgwyl ei weld. Cawsom ddiwrnod braf a chynnes a gwelsom beth wmbreth o adar. Yr oeddem yn ffyddiog y byddai aelodau eraill y Gymdeithas yn cael diwrnod gwerth chweil ymhen yr wythnos.

Y bore dydd Iau cyn y daith, dyma'r map tywydd ar gyfer diwrnod y daith! Ar ôl wythnos braf... glaw enbyd drwy'r dydd oedd ar y gorwel. Di-galon!



Fe ffoniais Dewi i rannu'r newyddion ag ef, ond atgoffodd Dewi fi am un o'r dywediadau sydd newydd eu cerfio ar balmentydd Stryd Fawr Stiniog fel rhan o gynllun adfywio canol y dref "*Tydi hi byth yn bwrw yn y Blaenau!*". "Paid â phoeni" oedd ei gyngor.

Pan wawriodd y bore Sadwrn, yr oeddem yn bryderus i agor y llenni... ond yr oedd yn dal yn sych! Fe wnaethom bacio'n cotiau a'n trowsusau glaw a chychwyn am Stiniog. Ond fu mo'u hangen, Dewi oedd yn iawn wedi'r cwbl. Diwrnod o haul braf oedd o'n blaenau yn Stiniog.

Criw bychan o ffyddloniaid a ddaeth ynghyd yn y gilfan wrth Goed Cymerau, a cawsom ddechrau da wrth weld sawl math o **ditw** ac **aderyn to** yn dod reit at y ceir, newydd i ni barcio.

Cychwynsom drwy gerdded ar hyd llwybrau Coedlan Cymerau – safle o rhyw 80 erw o goed derw hynafol sy'n eiddo i Goed Cadw. Yr oedd blychau nythu wedi eu gosod yng ngardd hen ffermdy Cymerau Isaf ac yno fe welsom un o'r adar yr oeddem wedi gobeithio eu gweld ar ein taith – y **gwybedog brith**. Gwelsom yr iâr a'r ceiliog yn brysur o gwmpas yn blwch nythu.

Y mae'r goedlan yn gynefin pwysig i 'slumod a gwelsom sut yr oedd mynedfa arbennig wedi ei chreu ar eu cyfer i nenfwd hen feudy'r fferm. I lawr a ni wedyn i gyfeiriad Rhyd-Sarn a chawsom sioe dda gan **delor y coed** oedd yn canu yn y brigau uwchben y llwybr.

Yn Rhyd-Sarn y mae'r afonydd

Coedol a'r Teigl yn uno. Yr enw ar yr ardal hon gyda llaw yw 'Y Swch' ac yno y magwyd 'John Swch' – neu John Elfed Jones, a ddaeth yn amlwg gyda Dŵr Cymru. Caiff yr ardal ei galw'n 'swch' am fod yr afonydd, wrth ddod at ei gilydd, yn ffurfio siâp swch neu *aradr*.

Yn Rhyd-Sarn, yr oeddem yn gadael tir Coed Cadw ac yn symud i Warchodfa Natur Genedlaethol a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Darllen'som y poster oedd ganddynt wrth yr afon yn egluro tipyn am y warchodfa a dweud beth ellid ei weld. Rhaid dweud fy mod yn amheus iawn pan yn darllen am **fronwen y dŵr** - nid oeddwn yn meddwl y byddai llawer o bobl yn gweld un o'r rheiny yno.... ond ymhen munudau, beth welsom yn gwibio i lawr yr afon ond Bronwen fechan! Syrpreis bach neis! Ymlaen wedyn a chroesi y bont bren dros yr Afon Goedol a gadael gwastad Dyffryn Maentwrog a dringo drwy goed conwydd tua'r Ddu allt.

Fel y gellid disgwyl, marwaidd iawn oedd hi yn y coed conwydd, ond daethom ar draws olion cyflafan; yr oedd plu **llwyd y gwrych** o gwmpas mewn pentwr – ac yn eu canol, un ŵy bach perffaith. Mae'n siwr bod **gwalch glas** wedi cael pryd bach yng nghanol y goedwig. Rhyfedd iawn nad oedd yr ŵy ddim gwaeth ynte?

A hithau'n boeth, yr oeddem yn falch o gyrraedd gwastad y Lein Bach ger y Dduallt ac yn awchu am ein cinio. Pwy oedd yno i'n disgwyl, yn canu o goeden heb fod ymhell ond y **gôg** – cwmni delfrydol wrth i ni fwyta'n cinio.

Ymlaen a ni gyda Dewi yn dangos y twnnel yr oedd y Lein yn arfer ei defnyddio ar y ffordd o Stiniog i lawr i'r môr - twnnel y bu'n rhaid ei gau pan adeiladwyd y cynllun trydan Stwlan. Yn wahanol i'r hen deithwyr felly, nid oeddem ni yn cael mynd *drwy* y mynydd, yr oedd yn rhaid i ni ddringo drosto.

Ar lan Llyn Ystradau – y gronfa isaf o'r cynllun storfa bwmpio hon, fe wnaethom gyfarfod â nifer o gyfeillion oedd yn ymwneud ag arolwg o ddyfrgwn yn ardal y Ddwyryd. Yr oeddent wedi dod o hyd i faw dyfrgi eithaf ffres wrth ymyl yr argae medda' nhw. Welsom ni ddim, ond fe welsom olion traed **mochyn daear** ar lan y llyn.

Cawsom olwg dda ar **pibydd y dorlan** (neu Wil-dŵr fel y gelwir ef yn lleol) yn hedfan yn isel dros wyneb y llun ac wedyn yn glanio yn y cerrig wrth ein hymlau. O gwmpas hen furddun, yr oedd ychydig o goed ynn a dywedodd Twm wrthym eu bod yn ffefryn gan y **tingoch**; o wrando am beth amser, fe glywsom ei gân ac funudau wedyn daeth un i'r golwg. Da iawn Twm!

Y mae'r llwybr yn gorfod gadael glan y llyn er mwyn mynd y tu ôl i'r orsaf gynhyrchu ei hun. Eglurodd Dewi ein bod yn croesi'r man ble bod pedair pibell fawr yn cludo dŵr i mewn i'r tyrbeini o Lyn Stwlan, tua 1,000 troedfedd yn uwch ar y mynydd. Gyda dim ond 60 eiliad o rybudd, gall yr orsaf gynhyrchu 360 mega-watt o drydan. Eleni, mae'r orsaf yn dathlu hanner can-mlwyddiant ei hagor.

Ar ôl pasio y llyn (a chael pum munud bach i gael hufen iâ a phanad yn y caffi) ymlaen â ni ar hyd y ffordd nes cyrraedd Pen Cefn Trwsgl ble yr oeddem yn gadael y ffordd fawr a dilyn hen lwybr i lawr i waelod Cwm Bowydd. (Hwn oedd yr hen lwybr o Danygrisiau i fynwent y plwyf yn Llan Ffestiniog.) Ar hyd y ffordd yr oedd ambell i lwmp concrit bychan – eglurodd Dewi wrthym eu bod yn marcio llwybr y gwifrau a gysylltai cynllun Stwlan â'r atomfa yn Nhrawsfynydd er mwyn rheoli'r orsaf o'r Traws.

Hanner y ffordd i lawr y llwybr hwn, dros dir digon agored ac anial clywsom gân go arbennig – ac fe ddaliodd i ganu am hir gan roi sioe byth-gofiadwy inni "*A little bit of bread and no cheeeese*! chwedl Iolo Williams – ie, y **bras melyn.**

Ar waelod Cwm Bowydd croesi'r briffordd unwaith eto am hen bwerdy trydan-dŵr Dol-wen. Arferai y pwerdy hwn gyflenwi trydan i'r chwareli a hefyd i dref Stiniog ymhell cyn dyddiau Stwlan. Yr oedd Blaenau ymhlith y trefi cyntaf i gael goleuo ei strydoedd â thrydan (1902).

Croesi wedyn drwy fwy o goed conwydd heb weld fawr ddim, ond yn clywed llawer o adar yn canu; cyrraedd tro yn y llwybr a chryn gyffro wrth i ni droi y gornel. Mae'n amlwg bod **gwalch glas** wedi bod yn aros yno yn gwylio a disgwyl am ei bryd nesaf. Fe'i gwelsom yn gwibio i ffwrdd yn sydyn a gosgeiddig.

Ymlaen a ni wedi gan ddilyn yr Afon Goedol nes cyrraedd Pont Cymerau. Mae'r bont yn dyddio o'r ail-ganrif-ar-bymtheg ond yn safle pont llawer hŷn mae'n debyg gan fod pedair ffordd Rufeinig yn cyfarfod ar y safle. Yn ddiweddar cafodd y bont rhestredig hon ei hatgyweirio gan Gymdeithas Eryri. Oddi arni, fe gawsom olygfa wych tua Rhaeadr Cymerau cyn dychwelyd i'n ceir.

Coed Lletywalter a Chwm Nantcol, Dydd Sadwrn, Mehefin 1af 2013

gan Rhodri Dafydd

Lle hudol yw Ardudwy. Môr a mynydd, coedydd a ffriddoedd, a'r cyfan o fewn cyrraedd hawdd i'w gilydd. Mae cant a mil o lefydd diarffordd i ymweld a hwy, a phob un yn cynnig cyfoeth o adar, mewn ardal sydd heb ei difetha'n ormodol gan drachwant amaethyddiaeth modern. Heddiw roedd cyfle i fynd i fwy nac un lle. Cyfarfod ym mhentref Llanbedr i ddechrau, a rhannu ceir oddi yno. I fyny'r ffordd gul, a chymryd y fforch i'r chwith am Gwm Bychan i ddechrau. Nid i bellafion y cwm chwaith, ond yn hytrach i goedlan ar ochr ogleddol y ffordd.

Hwp! Dau, tri, pedwar….

Mor hawdd fyddai gyrru heibio i'r giat fechan dinod sy'n arwain i mewn i'r coed yma, wedi ei gosod yn ddestlus o fewn wal o gerrig 'pennau cwn' dal, un o'r waliau cerrig rhewlifol llwyd sydd mor nodweddiadol o'r ardal. Er, o dan y coed fel hyn, bron na ellir gweld cerrig y wal dan gwrlid trwchus o fwsoglau cyfforddus gwyrdd, sy'n gorchuddio popeth o dan haenau meddal, llaith, cyfarwydd. Mae'r ffordd yn lledu ryw ychydig yma, gan roi digon o le i stwffio dau gar bach i'r gulfan fechan ar fin y ffordd. Wrth gamu o'r ceir, roedd cân nodweddiadol telor y coed i'w glywed, fel ceiniog wedi ei rholio ar fwrdd ac yn troelli cyn dod i stop yn ddisymwth. I rai, dyma'r cyntaf i ni ei glywed eleni – ond nid yr olaf, gan y byddem yn clywed ambell un arall cyn diwedd y bore. Mae'n debyg fod niferoedd yr aderyn hwn wedi lleihau yn aruthrol dros y blynyddoedd diwethaf (yn ôl yr RSPB meant wedi prinhau bron i draean ers y 1980au) – gobeithio y bydd iddo gadarnle yng nghoedydd y gorllewin, ac nad yw'r problemau yn ei diroedd gaeafu yn Affrica.

Pe bawn i'n delor, canu fyddwn innau yng Nghoed Lletywalter y bore hwn - bendigedig oedd cael cerdded dan lesni'r coed ar fore o wanwyn (fe ddylai Mehefin fod yn haf ond roedd yn dymor mor hwyr eleni!), yr haul yn tywynnu drwy'r dail ifanc ac yn goleuo llus ar un ochr, brwyn a hesg ar ochr arall, ac uwch ein pennau ganeuon y siff saff, telor yr helyg a delor y cnau. Telor penddu oedd un o'r adar mwyaf amlwg, yn debyg iawn i delor yr ardd ond yn fwy melodig a chrwn – wedi sefyll yn llonydd am ychydig bu i ni weld y ceiliog ym mrigau ucha'r coed, yn symud o un brigyn i'r llall yn edrych am le gwell i ganu, gan bigo rhyw lindysun yma a thraw.

Dyma barhau ar hyd llwybr troellog, cul i grombil y goedlan, â charped o glychau'r gog yn gorchuddio'r llawr. Roedd dryw bach i'w glywed o'r drysni yn rhywle. Wrth ddod i lecyn agored, dyna nodyn uchel cnocell fraith fwyaf. Pawb yn sefyll yn stond gan syllu at dwll mewn coeden ar y chwith i ni... ai oddi yno y daeth y sŵn? Dyna'r 'tic' uchel eto. Ac yna, ar goeden gyfagos, oedolyn. Yn wir, roedd cywion yn y twll siwr o fod, felly dyna encilio ychydig, i weld yr aderyn yn dod at y twll. Ie, y gwanwyn ar ei anterth a bywyd ymhobman.

Am gyfnod, nid oedd coed Lletywalter (neu 'Llety

Gwallter' fel ag y bu) yn nodweddiadol o goedwig dderw Atlantaidd. Bu llawer o blannu yma yn y gorffennol ac, o ganlyniad, ceid cymysgedd ryfedd o goed, yn frodorol ac estron – gan gynnwys ambell i gochwydden, sy'n enfawr erbyn hyn. Yn ddiweddar fodd bynnag sylweddolwyd pwysigrwydd rhyngwladol y coedydd cynhenid ac aed ati i dynnu nifer o goed 'diarth'; gan gynnwys yn bennaf goed ffawydd yn eu degau. Agorodd hyn y goedwig, gan adael mwy o oleuni heibio'r canghennau uchaf er bydd i nifer o blanhigion llawr y goedwig. Mantais arall hyn yw y gellir bellach weld nifer o greigiau geirwon trawiadol ynghanol y gwyrddni – llefydd y gellid yn hawdd eu cymharu a chestyll chwedlonol, a'r tirlun lledrithiol yn brith drafflith o glogwynni bychain a pheth wmbreth o ogofau a thyllau naturiol, llefydd cuddio heb eu hail i greaduriaid o bob math. Difyr oedd clywed hanesion am yr Haf Meredydd ifanc yn chwarae ymysg y coed a'r creigiau. Da o beth fod Haf yn adnabod ei ffordd drwy'r coed fel cefn ei llaw, gan mai hawdd fyddai mynd ar goll yn y brithwaith o lwybrau cul, pob un yn arwain i rywle, neu nunlle. Wedi dweud hynny, pleser fyddai cael ymgolli yn y coedydd hudolus, tawel yma am oriau di-ri, a dim ond sŵn yr adar yn gwmni.

Ond ni fydd adar yn canu drwy'r dydd – wedi awr neu ddwy yn y coed (gan gynnwys ymweliad a hen argae, a llyn sydd bellach wedi ei fygu gan gyrs a hesg; lle penigamp i weision neidr a phryfetach o bob math) aeth yn ddistaw yn sydyn reit – amser felly i fynd yn ôl at y ceir, ac anelu dros yr Artro ac i'r cwm nesaf cyfagos; un o fy hoff lefydd i yn y byd, Cwm Nantcol.

Yr wyf wedi ysgrifennu yn *Llygad Barcud* eisoes am fy sgwar BBS yma yn y cwm (un o dros 3,400 o sgwariau arolwg ym Mhrydain yn 2012. Gredwch chi mai dim ond yn un o dri o'r rheini y gwelwydd geifr gwylltion?! Dyna un ystadegyn diddorol o ganlyniadau arolwg 2012 – mynnwch gopi gan y BTO). Wel, heddiw dyma arwain criw bach Cymdeithas Ted ar hyd yr un llwybrau, a chael mwy o gofnodion gwerthfawr.

Gwir drigolion y fro

Aros am ennyd ger hen ysgol y Cwm a mwynhau picnic tra'n eistedd ar y wal. Tra'n sglaffio'n brechdanau, dyma hen dractor yn mynd heibio. Un arall, ac yna un arall – confoi yn wir, o ryw 20 o beiriannau hanesyddol, ac arogl olew a phetrol yn llenwi'n ffroenau, yn mygu a llygru'r awyr iach. Ffordd digon anghyffyrddus o dreulio'r Sadwrn yn fy marn i – ond pawb at y peth y bo mae'n debyg; nid pawb fyddai eisiau cerdded drwy goedydd a chorsydd yn edrych am adar gan gael eu pigo gan wybed a phryfed llwydion ar ddydd Sadwrn chwaith mae'n siwr!

Yn gynnar yn y bore ar yr adeg iawn o'r flwyddyn bydd troellwr bach i'w glywed o'r gors is y capel – rhy hwyr heddiw, ond roedd y llinosiaid a'r corhedyddion arferol i'w gweld a'u clywed yn glir. Draw am Glan rhaeadr, â'r olygfa o'r cwm a'r Rhinogydd yn gwella efo bob cam. Ger yr hên dŷ mae coed sycamorwydd aeddfed yn gartref i'r jibinc a'r titw tomos las. Dim golwg o'r dylluan frech na'r gwalch glas heddiw, ond roedd adar duon, bronfreithod, llwyd y gwrych a'r siglen fraith yn gartrefol yn yr ardd a'r caeau cyfagos, a'r gwenoliaid yn niferus.

O basio'r tŷ, o fewn tafliad carreg, mae ffridd agored a choed drain gwynion yma a thraw – yma y gwelsom ni'r tingoch yn disgyn i'r llawr cyn codi'n ôl i frigau isaf y goeden. Yn ôl ac ymlaen, i fyny ac i lawr – ond drwy'r adeg ag un llygad wyliadwrus arnom ni! Dyma 'dderyn smart yn ei liwiau magu – yn lwyd, du a choch llachar yn llygad yr haul, a dyna dda cael cyfle i gael golwg mor agos a chlir arno.

Ymlaen dros y gors am Gilcychwyn. Yma a thraw craig sych yn codi o'r mawn, ac eithin bler yn

stryffaglu i fanteisio ar noddfa ynghanol y gwlypni. Clochdar y cerrig, a Chrec yr eithin yn rhoi cyfle i ni astudio'r gwhaniaethau cynnil rhwng y cefndryd.

Wrth ddynesu at bont Cwm Nantcol, gyda Maes y Garnedd a'r Graig Isa yn gefndir, gwelwyd cip ar aderyn bach brown, penddu, a fflach o wyn yn dilyn yr afon a chuddio mewn clwmp o goed helyg. Bras y cyrs! Ni chafodd pawb gyfle i'w weld yn anffodus er i ni ei stelcian tra roedd yn swatio yn y brigau – roedd yn swil ac yn rhy gyfrwys inni allu dilyn ei hynt . Gwell lwc tro nesa!

Croesi'r afon gan edrych i lawr am bysgod, fel y cofiaf ei wneud flynyddoedd maith yn ôl wrth ddod i weld Anti Glenys yng Nghilcychwyn. Dim pysgod i'w gweld heddiw, ond clamp o was y neidr enfawr yn hela pryfetach rhwng y brwyn ac yn isel dros wyneb y dŵr. Troi i'r chwith yn union wedi croesi'r bont, a pharhau ar lwybr cul sy'n nadreddu rhwng cors a chraig, grug a rhedyn.

Wrth ddynesu at droed ysgithrog y Rhinogydd, clywodd Haf a minnau gan gyfarwydd o'r creigiau – mwyalchen y mynydd ar f'enaid i! Roedd y criw wedi ymestyn fel neidr hir y tu ôl i ni erbyn hyn, a'r sgwrsio wedi golygu na chlywodd y rhai yn y cefn mo'r gân – mor fer ydoedd. Ac er eistedd a gwrando am ddeng munud pellach, chlywyd mo'r sŵn drachefn – y fwyalchen ddim am dynnu sylw. Ond wrth aros, cawsom o leiaf gyfle i weld teulu o dinwenod y garn – trydydd cefnder teulu'r crecod a dyna hatric i ni heddiw. Rhoi'r ffidil yn y to o ran gweld y fwyalchen a cherdded ymlaen yn sŵn bwncath oedd yn mewian uwchben.

Â'r llwybr heibio i'r Afon Nantcol oedd yn dolennu'n araf drwy'r mawndir. Bum yma droeon â'r ddaear dan ddŵr; heddiw roedd hi'n sychach, a phleser oedd cerdded drwy'r fath dirlun. Mae'r gwastatir gorlifdirol yn gymysgedd hynod o laswelltir mawnog, gwelyau cyrs, mawndir yn cyforiog o blu'r gweunydd, a'r coed helyg a'r brwyn o bobtu i'r afon ddiog yn gartref delfrydol i delor yr hesg. Ond fel roedd y tir yn mynd yn wylltach, roedd y llwybr yn mynd yn anoddach i'w ddilyn. Heb enwi neb, aeth ambell un dros ei esgid mewn mwd wrth i'r crawcwellt ei gwneud hi'n anwastad, dros ben a dan draed! Rwy'n siwr fod y cigfrain uwchben yn gwenu – ac efallai'n teimlo gobaith am damaid...!

Ond ddim heddiw gigfrain! Doedd dim asgwrn wedi ei dorri â'r llwybr bellach yn mynd a ni i le sychach ac allan i ffridd a choed unwaith eto. Clywsom fras melyn yn canu ei gân unigryw, ond roedd yn rhy bell i'w weld yn anffodus. Troi i mewn i'r coed a chanfod llwybr, cerrig camu a phont o gerrig hynafol i groesi'r Afon Nantcol unwaith eto, gan ddod a ni i'r ochr ddeheuol ble dechreuon ni. Cyn gadael y coed dyna weld brân yn dychwelyd at ei nyth – diau fod cywion ganddi.

Cymal bychan iawn ar y ffordd yn ôl at y ceir, a dyna ni ddiwedd cylchdaith amrywiol iawn o ran cynefinoedd - rhywbeth y gellir ei wneud yn hawdd yn Ardudwy gyda chymorth map ac ychydig o chwilfrydedd! Gallwn fynd ymlaen i sôn am y rali ceir rhwng waliau cerrig tal y fro, gemau agor giatiau, y tro heibio i Dyddyn Llidiart ar drywydd y troellwr bach, a phynctiar un o'r criw... ond gwell gadael pethau yn eu blas! Diolch i bawb a ddaeth ar y daith. Ers hynny bum yn ôl yn cwblhau ail hanner BBS eleni, a'r wybodaeth bellach ar ei ffordd i ffurfio cyfraniad fechan at adroddiad 2013. Rwy'n edrych ymlaen yn barod at y gwanwyn nesaf!

*Ceidwad y gamfa: "**'Mond 50c yr un, plïs**"*

Taith Pistyll a Nant Gwrtheyrn

Twm Elias yn arwain (Mehefin 22ain)

Ha! Ha!, mi oedd y rhagolygon tywydd yn anghywir eto. Mi gawsom ni ddiwrnod reit braf, er ei bod yn chwythu gryn dipyn ar ben yr allt ar y ffordd yn ôl. Mewn gwirionedd mi fu hi'n braf a sych am fis cyfan i ddilyn – bron iawn a gwireddu'r hen ddywediad: 'be bynnag ydi'r tywydd ar Droiad y Rhod (y dydd hiraf, Mehefin 21ain – sef ddoe y daith), felly bydd hi am 40 niwrnod.'

Criw bychan ddaeth – Huw Dafydd, Dewi o Blaenau, Gareth a Gwennan o Bwllheli, Eifion a Nia o Langristiolus a'r arweinydd. Cyfarfod ym maes parcio newydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol uwchlaw Eglwys Pistyll ac sy'n gyfleus iawn i ymweld â'r Eglwys neu ymuno efo'r Llwybr Arfordir newydd, mewn ardal sy'n diferyd o hanes.

Wrth inni fynd lawr am yr Eglwys mi oedd 'na amryw o'r adar bach cyffredin i'w gweld: nicos, robin, haid fechan o adar y to, ji-bincs, adar duon, pioden a wenoliaid yn hedfan yn agos at wyneb y ddaear.

Doedden ni ond wedi mynd ryw chydig o lathenni i lawr y lôn pan sylwodd yr arweinydd ar chwilen fawr ddu nobl ar blanhigyn llau'r ffeiriad yn y gwrych. Dyma ichi'r ***ffeiriad du*** (*Timarcha tenebricosa*), sy' ddim i'w gweld yn aml iawn erbyn hyn, yn ei throedio hi'n ara' bach ar borfa fel arfer.

(llun: Huw Dafydd)

Un nodwedd arbennig iawn o hon ydi y gwnaiff hi 'boeri' diferyn o hylif coch os gwnewch chi ei tharo ar ei chefn. Mi wnaeth yr arweinydd hynny yn ofalus – h.y. heb ei sgwashio hi! Ac fe ollyngodd hithau y cyfryw ddiferyn, o gylch ei gwddw yn hytrach na o'i cheg, ar gledr ei law. Dyfais i atal adar ydi hyn am fod yr hylif coch i fod yn chwerw iawn.

Ar un adeg, pan fyddai'r creadur yn dipyn mwy cyffredin, mae'n debyg, mi fyddai plant, wrth ei chael i boeri gwaed yn arfer adrodd y rhigwm:

'Ffeirad du, poera waed
Neu mi ladda'i dy fam a dy dad.'

Wnaethon ni ddim byd o'r fath ond ei rhoi yn ôl yn ofalus.

Ymlaen heibio'r Eglwys a chip dros y wal ar fedd yr actor Rupert Davies, neu (Inspector) Maigret yn y rhaglen ddtectif boblogaidd o'r un enw yn y 1960au. Duwcs, dwi'n hen.

Drwy'r giat i'r cae ac ymlaen ryw chydig i olwg y chwarel fechan ar y llethr. Mae 'na fwncath yn nythu yma yn reit aml ac mi oedd o yma ym mis Mai – ond dim arlliw heddiw, y teulu wedi gadael y nyth mae'n debyg.

Penderfynnu y byddai'n syniad da i fynd i lawr i'r traeth ac ymlwybro i gyfeiriad Carreg y Llam i weld yr adar yn nythu ar y clogwynni. Heb wybodaeth fannwl am gyflwr y llanw mater o lwc oedd hi os byddai'n ddigon o drai inni fedru cyrraedd yn ddigon pell i weld y clogwynni'n iawn, ond mynd wnaethon ni beth bynnag.

Mae traeth Pistyll yn le difyr iawn – yn ddiarffordd ac yn gerrig i gyd, h.y. cerrig crynion wedi eu siapio gan y môr a'u graddoli yn ôl eu meintiau o ben ucha'r traeth i'w waelod gan stormydd.

Am fod llawer iawn o gerrig y traeth wedi disgyn yno o'r clogwynni pridd anferth uwch ein pennau, â'r pridd ei hun yn waddodion oedd wedi eu cario yma o'r gogledd gan y rhewlif mawr 12 – 15,000 o flynyddoedd yn ôl, mi oedd amrywiaeth y cerrig ar y traeth yn anhygoel. Buan iawn y canfyddwyd basalt du o Ogledd Iwerddon, callestr o waelod y môr ger Ynys Manaw, calchfaen o Sir Fôn (roedd Nia ac Eifion yn teimlo'n reit gartrefol!).

Roeddem yn gweld hefyd pa mor ansefydlog ydy'r clogwynni pridd 'ma. Talp enfawr o dir fferm Pistyll, sy' o dan yr Eglwys, wedi llithro i'r môr rai blynyddoedd yn ôl ac amryw o fân lithriadau i'w gweld ar ein ffordd am Llech Llydan o dan Carreg y Llam. Doedd dim angen poeni – dim ond wedi cyfnod estynedig o law trwm i feddalu'r ddaear mae'r llithriadau'n digwydd.

Traeth carregog Pistyll efo Carreg y Llam yn y pellter (llun: TE)

Roedd hi'n gysgodol braf ar y traeth er bod cesyg gwynion ar y waelgi. Amryw o huganod – ai ugain hugan, ynteu un hugan ar hugain?

Fel yr oeddem yn dynesu at Llech Llydan ym mhendraw'r traeth roedd pâr o biod môr ('Saer' yn Llŷn) i'w gweld – a ryw olwg ddigon pryderus arnyn nhw. Tebyg bod cywion yn

Hugan dan erledigaeth (llun: HD)

swatio ymysg y cerrig ar ran ucha'r traeth, felly cadw at ymyl y dŵr oedd orau rhag ofn damwain – mae'u cuddliw nhw'n eu gwneud yn drybeilig o anodd i'w gweld dan draed.

Mi oedd 'na gorhedydd y graig yno hefyd yn brysur yn bwydo'i gyw. Mi ddaeth pâr o frain coesgoch (brain picoch yn Llŷn) heibio ac mi glywson ni ddryw yn rhegi arnon ni o ymyl y clogwyn – on'd ydy'r drywod 'ma i'w gweld ym mhob man d'wch?

Cor-hedydd y graig a'i gyw (llun HD)

Trueni rywsut, bod y llanw yn dal yn rhy uchel inni fedru dringo i ben Llech Llydan inni fedru edrych i fyny ar glogwynni Carreg y Llam:

Carreg y Llam a'i wyneb llyfn
Traed yn y dŵr yn malio dim;
Golchi'i wyneb â dŵr hallt,
Byth yn meddwl gwneud 'i gwallt.

(Rhigwm o Llithfaen)

Roedd o leia 31 bilidowcar ar Llech Llydan, ac amryw o rai eraill, a mulfrain gwyrdd, allan ar y dyfroedd. Cryn dipyn o adar yn mynd a dwad rhwng y môr a'r clogwynni – llursiaid a

gwylogod *galore*; gwylanod penwaig; cip ar ambell wylan goesddu fach osgeiddig ac un neu ddau o adar drycin y graig ar eu hadain ger wyneb y clogwyn yn marchogaeth y gwynt o'r môr.

Llech Llydan dan ei sang â bilidowecars (llun: HD)

Yn hytrach na aros am ddwyawr arall am y trai dyma ymlwybro'n ôl rywfaint a phicio i mewn i gysgod nant fechan am ein cinio. Ac mi oedd hi'n gysgodol iawn yno hefyd rhag y gwynt.

Lle cysgodol i ginio a Huw yn 'i hwyliau (lluniau: TE)

Mi gawson gwmni criw bychan o wennoliaid y glennydd yn gwibio i fyny ac i lawr y nant ryw chydig lathenni uwch ein pennau ar adegau. Roedden nhw, fel ni, yn amlwg yn manteisio ar y nant, yng nghysgod gwynt ac yn llygad yr haul, am eu cinio.

Dringo 'nol fyny'r allt. Clochdar y cerrig yn dwrdio. Weithiau mi fydda i'n galw hwn yn 'gleciwr cerrig' am fod ei 'tsh-tsh' cras o, a chwiban i ddilyn, yn swnio fel 'tae o'n gafael mewn dwy garreg – un ym mhob troed – a'u taro yn erbyn ei gilydd: 'tsh-tsh wssst, tsh-tsh wssst'. Mi oedd 'na dinwen y garn yno hefyd.

Cyrraedd yn ôl i dir gwastad pen yr allt fôr a sylwi ar ugeiniau o wylanod yn troedio'r borfa ar y llethr uwch ein pennau, a methu d'allt pam ar y pryd. Gweld wedyn, wrth i ninnau droedio'r cynefin hwnnw, bod miloedd o bryfed duon – pry St Marc *(Bibio marci)* yn codi o'r ddaear. Roedd y rhain ddeufis yn hwyr yn dilyn y gaeaf hir eleni. Fel arfer mae nhw'n codi'n gymylau o borfeydd yr ucheldir o gwmpas Gŵyl Farc (Ebrill 25ain).

Ymlaen i gyfeiriad pen Carreg y Llam, a rhyfeddu at gyfoeth archeolegol y silff yma o dir – waliau crwydrol o gwmpas caeau hynafol a gwrymiau ar wyneb daear yn awgrymog o hen anneddau canol-oesol. Cyrraedd y pen draw a chael ein croesawu (?) gan yrr fechan o eifr – yr unig rai o ddisginyddion hen drigolion Nant Gwrtheyrn sy' wedi cadw at eu cynefin.

Be-e-e 'dach chi ishio'n fa'ma? (llun: HD)

Dyma gyrraedd pen Chwarel Carreg y Llam a chael golygfa wych dros Nant Gwrtheyrn, Yr Eifl ac arlliw o Fôn yn y tawch yn y pellter. 'Ciaaaw, ciaaaw' – brain coesgoch ar ymyl y

graig uwch ein pennau, a dau giw efo nhw yn gwaeddi am fwyd ac yn amlwg yn dwad ymlaen yn iawn o ran eu prentisiaeth hedfan.

Pan oeddwn i yma ym mis Chwefror mi lwyddais i nodi lliwiau'r modrywya oedd am goesau un o'r rhienni [coes chwith = modrwy werdd dros un oren; coes dde = modrwy resog (gwyn a glas) dros fodrwy fetel BTO] a gyrru'r cofnod i Kelvin (Kelvin.jones@bto.org). Mi gefais ateb cyn bo hir gan Adrienne Stratford sy'n gyfrifol am fonitro'r brain coesgoch ac roedd hi'n falch iawn o'r wybodaeth. Bu'r pâr yma yn nythu yng Nghareg y Llam ers blynyddoedd â'r iâr yn ddeoredig o Ben Llŷn, ger Aberdaron yn wreiddiol – cafodd ei modrwyo yn gyw yn 2006 gan Tony Cross.

'Gwraaag! – dwisho pry, pry' (llun: HD)

Troi'n ôl oedd y cam nesa, gan ddilyn y grib yn ein holau (ryw daith siap sosej).

Na, does dim ishio weindio ffilm ymlael ar gamera digidol ……yn nagoes? (llun: HD)

Roedd hi 'mbach yn wyntog erbyn hyn felly welson ni fawr ddim adar, h.y. tan inni gyrraedd yr allt eithin gysgodol fel yr oedden ni'n cyrraedd yn ein holau at y maes parcio. Amryw o adar cyffredin – llinosiaid, ji-binc, titw mawr, adar duon – ac yna, un cân i godi'r galon: nodau'r bras melyn o'r eithin, efo'i neges adnabyddus: 'Mae'n syn-iad reit dda i dd'eud pliiiiis'.

Y doethion dri, yn nannedd y gwynt (llun: HD)

R'wbath i'r Dyddiadur :

Parot Nant y March

gan Twm Elias

Y Parot yn sgubor Nant y March yn b'yta cneuen Ffrengig o'i grafangc chwith – ia, troed chwith bob tro pan yn b'yta cneuen (llun: TE)

Os ydi eleni yn *flwyddyn y neidr* yn Tsieina, blwyddyn y *Parot* 'di hi yma – am fod 'na sawl parot wedi 'i mentro hi i'r gwyllt yn yr ardal yma yn ddiweddar. Amser cinio dy' Llun, 24ain o Fehefin oedd hi - Dydd Gŵyl Ifan (na, ddim Ffŵl Ebrill) - pan gafodd Mr Gwyndaf Jones, Nant y March, Gellilydan dipyn o syrpreis pan welodd o barot (un coch a gwyrdd) yn cerdded yn braf ar fuarth y ffarm heibio'r ffenest. Allan a fo ac mi lwyddodd o yrru'r deryn yn ara bach i'r sgubor a chau'r drws arno fo.

Mi ges inna' w'bod, a mynd yno am sbec. Wel am dderyn smart – ryw 15" o hyd, yn wyrdd llachar, pig du a chlytia cochion ar ei dalcan ac ar ongl yr adenydd. Ac mi oedd o'n weddol ddof. Hynny yw, mi ddaeth o i lawr ata i a chymryd cneuen o'm llaw i, ond doedd o ***ddim*** yn barod i adael imi'i gyffwrdd o na darllen y rhif oedd ar ei fodrwy: ***"Gwraaaag!"*** a bygwth brathu oedd o bryd hynny. Roedd hi'n amlwg mai un dof oedd o, wedi denig o r'wla.

Dyma fynd i chwilio am lun ar y we a ffeindio mai y parot gylfindew *(Rhynchopsitta pachyrhyncha)* oedd o. O Fecsico'n wreiddiol – ond ei fod o fel llawer aelod arall o'i deulu yn cael eu magu mewn caethiwed erbyn hyn fel adar cratsh, druan bach. Wyddoch chi fod 'na dros 250 o wahanol fathau o barotiaid drwy'r byd?

Dim ond ryw 1-3,000 o barotiaid gylfindew sy' ar ôl yn y gwyllt erbyn hyn ac o'r rheiny amcanir mai dim ond ryw 100 o barrau sy'n llwyddo i nythu bob blwyddyn.

"Gwraaaaag! 'Da'mi gnau gen ti!?"

Ei gynefin naturiol o ydy coedwigoedd pîn mynyddig yn uchel yn y Sierra Madre yng ngogledd orllewin Mecsico, rhwng tua 1,200 –

3,600m uwchlaw'r môr. Ar un adeg mi oedd o i'w gael yn Arizona hefyd ond, oherwydd torri'r coed pîn ac iddo gael ei hela, welwyd yr un yn yr UD ers 1938. 'Dydy ei hanes o ym Mecsico fawr gwell – torrwyd bron i 99% o'r goedwig fynyddig mae o'n ddibynol arni, â'r drefn gan goedwigwyr oedd casglu'r cywion o'u tyllau nythu pan gwympwyd y coed a gwneud ryw $ neu ddwy o bres poced drwy eu gwerthu fel adar cratsh.

(www.defenders.org)

Roedd ymgais i ail-gyflwyno'r parot gylfindew i fynydd-dir Arizona yn y 1980au yn fethiant llwyr am mai chydig iawn o'r coed pîn gwreiddiol oedd ar ôl ond yn bennaf am fod hebogwyr, rai blynyddoedd ynghynt, wedi gollwng yr aderyn hela mawr hwnnw – y Gwalch Marth – i'r gwyllt yn yr ardal. A does dim byd gwell gan Walch Marth na phryd parot i frecwast, cinio neu swper.

Mae'r hen Walch Marth yn dipyn o heliwr – yn edrych yn debyg iawn i'r Gwalch Glas bach 'na sy'n dal titws oddiar y bwrdd adar yn yr ardd – ond yn lot mwy, tua maint bwncath, ac mi ddalith o sgrech goed, ffesant, wiwer a hydnoed greyr glas.

Ar sail hynny, 'dwi ddim yn meddwl y buasa parot Nant y March yn para'n hir yn y gwyllt yma yng Nghoedydd Maentwrog, oherwydd be sy' wedi sefydlu yma yn yr 20 mlynedd d'wytha? Ia, 'dach chi'n iawn – y Gwalch Marth.

Dyma holi yn yr ardal os oedd rhywun wedi colli parot – neb yn ymateb. Mynd ar Stondin Nia, Radio Cymru, a dim ymateb. Ar ôl rhai dyddiau dyma gysylltu efo'r RSPCA ym Mryn y Maen, Bae Colwyn. Wrth lwc roedd eu rhif ffôn uniongyrchol gen i – gwastraff amser llwyr oedd deialu rhif cyhoeddus yr RSPCA, hydnoed eu rhif argyfwng! – Ryw lais record ddiawl yn eich gyrru rownd y byd a'r betws am rai munudau, ddim ond ichi gael: *'Sorry, lines are busy, can you please try again later?'* ....!*

Ar Orffennaf 1af, wythnos ar ôl iddo gyrraedd mi ddaeth Will Galvin, un o arolygwyr yr RSPCA, yn ei fan fach wen i'w nôl o. Ei ddal o'n reit daclus efo rhwyd – â'r hen barot yn sgrechian enllibion dros y lle!

'Wedi dy ddal di mêt!' (llun: TE)

Ymhen sbelan clywsom fod y deryn yn ôl efo'i berchennog – rhywun o dde Lloegr, dair awr o siwrnai i ffwrdd. Roedd y rhif ar y fodrwy wedi bod yn help mawr. Sylw Will Galvin oedd bod rhai sy'n dwad ar eu gwyliau, i giarafan neu dŷ ha', yn aml yn dwad a'u parot efo nhw – ac ambell un yn denig.

Parotiaid yn bla?!

Os nad oedd y parot gwyrdd 'ma yn ddigon, ddau ddiwrnod wedyn, ar y 26ain o Fehefin, mi glywyd ar y radio fod parot arall, un mawr lliwgar – ***Macaw*** – ar goll yn ardal y Bala. Ond mi ddaeth hwnnw yn ôl at ei berchenog ar ôl 2 ddiwrnod – ddim yn leicio'r tywydd ma' raid!

Ac mi glywsom hefyd am ddau 2 barot llwyd oedd wedi denig yn ardal Ffestiniog yn ddiweddar! ***Parotiaid Llwyd Affrica*** f'asa rheiny mae'n debyg.

Mae 'na gofnodion parotaidd eraill o'r ardal hefyd. Dair mlynedd yn ôl mi dynnodd Rory Trappe (sy'n gweithio yn Atomfa Traws) y llun isod o ***Baracît penlas*** *(Aratinga acuticaudata)* ym Mlaenau Ffestiniog.

Paracît penlas (llun: Rory Trappe)

[Os gwyddoch chi ddarllenwyr Llygad Barcud ac aelodau hynaws Cymdeithas Ted Breeze am engreifftiau eraill o barotiaid welwyd yn y gwyllt gadewch inni wybod. Hefyd unrhyw straeon parotaidd, fel y rhai isod. Gol.]

Parotiaid Siaradus

Gall siaradwr da fod yn werthfawr iawn. Mi aeth 'na un parot Macaw mawr am £70,000 yn ddiweddar – ond mi oedd gan hwnnw dros 150 o eiriau, digon ichi gael sgwrs gall efo fo.

Mae parotiaid Llwyd Affrica yn siaradwrs da fel arfer. Dwi'n cofio trio cael sgwrs efo un ohonyn nhw flynyddoedd yn ôl, ond y cwbwl oedd o'n dd'eud oedd: *"Wraaag!, 'Pen ôl' pob Sais"* a *"ffa-coffi"*.

Mi oedd 'na barot ym Modorgan fyddai, bob tro oedd rywun ar y ffôn, yn mynd *"ia, ia-ia"*, yn union fel gwraig y tŷ. Ew, mi fuaswn i wrth fy modd efo parot o'r fath ac yn ei roid o i borthi yn fy lle pan fydd rhai, fel gewch chi weithia', yn pregethu'n rhy hir ar y ffôn, *"ia, ia-ia"***.**

Roedd 'na barot arall yn yr un ardal o Sir Fôn rai blynyddoedd yn ôl a phan fyddai'r plant yn cynhyrfu wrth weld y fan jips wen yn dwad i barcio ar y stryd mi fyddent yn gwaeddi ar eu mam i nôl swper iddyn nhw.

Am flynyddoedd wedyn, ymhell wedi dyddiau y fan jips, bob tro y byddai fan wen yn pasio i lawr y stryd mi fyddai'r parot yn gwaeddi: *"Gwraaag! Fan jips! Fan jips!"*

A be am y parot hwnnw yn Oslo oedd yn casau'r cymydog a bob tro 'oedd o'n ei weld o yn sgrechian a gwaeddi: *"Hen ddiawl hyll wyt ti!"*.... a gwaeth. Wel, mi aeth y dyn â'r parot a'i berchenog i Lys Barn. Ond yn y Llys, pan safodd y cymydog ar ei draed i brofi ffieiddwch geirfaol y parot, ddywedodd y deryn 'run gair o'i ben – felly dim tystiolaeth... cês dusmus!

Mam ydi mam

Yn y llyfr ***Ted – Dyn yr Adar*** (2000), fe welwch lun ar dudalen 24 o iâr goch efo ci bach, ci defaid, yn swatio'n dyn wrth ei hochr. Os nad oes copi gennych – cysylltwch â'r *Golygydd* ac fe gewch gopi yn rhad – bargen.

Geiriau Ted sy'n disgrifio'r hyn a welir:

"Mam ydi mam. Un o'r mabwysiadau doniolaf a welais erioed oedd iâr yn gori ac yn gofalu am gi bychan ar fferm yn Nyffryn Maentwrog. Angen y ci bach, pan grwydrai'r ast, oedd cynhesrwydd, a greddf yr iâr oedd gori ar unrhyw beth byw oedd yn agos ati. Golygfa ddoniol oedd canfod yr iâr ar ei nyth a phen y ci bychan yn glòs o dan ei hadain. Doniolach fyth oedd y sefyllfa pan dyfodd y ci yn fwy na'i 'fam', a hithau druan yn cael trafferth i ledu ei hadain drosto."

Y fferm dan sylw, lle magai'r iâr y ci bach, oedd Nant y March ac mae Mr Gwyndaf Jones, fu mor barot ei gymwynas i'r deryn coch a gwyrdd, yn cofio'r achlysur yn iawn, a Ted yn dwad i dynnu'r llun.

Adar, Rygbi a Phel droed

gan Twm Elias

Roeddwn wedi ymddiddori ers blynyddoedd efo sut mae adar yn bwysig fel delweddau i wahanol gyrff ac wedi gwneud rhestr rywdro o 15 o wahanol glybiau rygbi a phel droed Cymreig oedd ag adar yn eu logo. Er engraifft, mae enwau fel Y Gweilch, Yr Elyrch, Y Caneris neu'r Adar Gleision yn gyfarwydd iawn inni ond mae'n rhyfeddol gymaint mwy sy' yna. Roeddwn wrth fy modd felly pan ddeuthum at draws llyfr difyr dros ben gyhoeddwyd ychydig fisoedd yn ôl: *The Football and Rugby Team Nicknames of Wales*, gan Richard E Huws (2013). Roedd hwn wedi gwneud y gwaith casglu ar fy rhan ac yn berwi o straeon a ffeithiau hanesyddol difyr am y clybiau mawr a mân.

Mae 'na dros 1,130 o enwau clybiau i gyd yng Nghymru a dros 70 o'r rhain yn seiliedig ar adar. Dyma ichi rai engreifftiau:

Adar Duon (Blackbirds) – CPD (Clwb Peldroed) Betws (ailenwyd yn Rhydaman yn 1960) am eu bod yn gwisgo crysau du a gwyn.

Adar Gleision (Bluebirds) – CPD Caerdydd. Mabwysiadwyd yr enw yn fuan ar ôl gêm gynta'r clwb yn 1910, pan wisgon nhw grysau gleision. Mae rhai'n credu bod drama o'r enw *The Blue Bird*, yn y New Theatre yn y dre wedi cael dylanwad hefyd .....ond pwy a ŵyr? Yn ddiweddar newidiwyd lliw crysau'r tîm i goch gan berchnogion newydd y clwb o Malaysia (mae coch yn liw lwcus yn y dwyrain pell) a rhoddwyd lle amlycach i'r ddraig goch fel symbol i'r clwb yn lle'r wennol draddodiadol. Dyna pam erbyn hyn mae'r clwb yn cael ei nabod fel yr '***Adar Gleision Coch***'!

Adar gleision eraill ydy: Clybiau pel-droed Abertileri, Brithdir, Caersws, Dafen, Hwlffordd, Narberth, Trethomas ac un clwb rygbi, sef Glais RFC.

Barcutiaid, Y – enw a fabwysiadwyd gan CPD Rhayadr yn 2007 ac a welir ar eu bathodyn. Mae'r barcud yn gyffredin iawn yn yr ardal ac mae'n bosib gweld ugeiniau ohonyn nhw yn cael eu bwydo ar fferm Gigryn wrth ymyl y dre.

Bilidowcars – efo Craig-yr-aderyn mor agos be well fel arwyddlun i dîm pel-droed Tywyn & Bryn-crug?

Brân/Brain – CPD a CR (Clwb Rygbi) Cwm Brân. Hefyd yn enw ar CPD Borth, ger Aberystwyth, sy' â bran yn sefyll ar ben pel droed ar eu bathodyn. Yn tarddu o'r dywediad: 'Brain y Borth' am bobl y fro! Eu gelyn pennaf fel tîm yw 'Piod Bow Street'.

Caneris – enw yn gysylltiedig âg amryw o dimau, peldroed yn bennaf. CPD Caernarfon yn adnabyddus, wrth gwrs, ac yn enwog am eu crysau melyn a trowsusau bach gwyrdd. Mae'n debyg mai chwarae ar enw'r dre ydy tarddiad y llysenw 'caneri' a bod y crys melyn wedi dilyn.

Caneris eraill ydy CPD Norwich City – am fod magu caneris fel adar cratsh yn boblogaidd iawn yn Norfolk ar un adeg. Hefyd clybiau pel-droed Dolgellau, Trefaldwyn, Trefeurig (ardal Aberystwyth am gyfnod yn y 1950au) a chlwb rygbi Alltwen yn y 1920au – 30au cyn newid lliw eu cit.

Ceiliogod – dau dîm rygbi: Heol-y-cyw a Chroesyceiliog.

Cigfrain (Ravens) – ar fathodyn amryw o glybiau ym Morgannwg : CPD Dinas Powys (eu cylchgrawn cefnogwyr ydy *Raven Loonies*), CPD Cogan Coronation, CR Penybont-ar-Ogwr (= Bridgend Ravens RFC). Clwb Rygbi merched y Barri ydy'r *Sea View Ravens*.

Yn tarddu o gysylltiad y teulu Gwyddelig Dunraven â'r fro, ac mae cigfran ar arfbais Penybont-ar-Ogwr.

Clomenod – rhain yw ail dîm CR Hebogiaid Abertyswg, am mai bwyd hebog yw cloman!

Cogau – CPD a CR Risca. Yn tarddu o'r hen chwedl am Gôg Risca (fe gewch yr un chwedl yn Nolwyddelan): am bobl yr ardal yn plannu gwrych uchel i gadw'r gôg rhag mudo'n ôl i Affrica am y credid y byddai cadw'r gôg yn cadw tywydd yr haf yma rownd y flwyddyn.

Chwiaid – CR Wattstown. Mi aeth yn gwffio mawr un tro pan oedd y tîm yn chwarae yn Abertridwr a rysut fe laniodd amryw o'r chwaraewyr yn yr afon. Dywedwyd bod hogia Wattstown wedi cymryd at y dŵr fel chwiaid ac fe arhosodd yr enw.

Eosiaid – CPD Llanybydder. Llun eos ar eu bathodyn a'r enw'n adlewyrchu bod eu cae chwarae ar dir fferm Llwyn yr eos, Alltyblaca.

Eryrod – CPD Castell Nedd. Ffurfwyd yn 2005 a gorffen yn 2012. Eu bathodyn yn dangos eryr yn clwydo ar dwr castell.

Gelwir CR Bryn-coch (cymdogion i Gastell Nedd) yn Eryrod hefyd ac mae'r eryr i'w weld ar eu bathodyn a'u rhaglenni gemau.

Elyrch – CPD Abertawe. Y Swans yn dalfyriad o Swansea, roddodd hefyd y cit gwyn i'r clwb.

Daeth eu mascot, 'Cyril the Swan' yn enwog am gambihafio ar ymyl y cae, er ei fod wedi meirioli cryn dipyn ar ôl priodi ac ar ôl i'r clwb gael dyrchafiad i'r uwch-gyngrair yn 2011.

Mae timau eraill hefyd yn arddel yr alarch fel symbol – CPD a CR Caldicot am fod alarch ar arfbais y dref a CR Aber-carn, i gydnabod pwysigrwydd y Swan Inn fel eu pencadlys cynta.

Glas y dorlan (Kingfishers) – CPD Mynwy yn cael ei adlewyrchu yn lliwiau'r cit – crysau melyn efo llewys a throwsusau gleision a'r deryn ar eu bathodyn.

Yn ôl y stori fe fabwysiadwyd y deryn fel arwyddlun y clwb yn dilyn llifogydd mawr ar yr afonydd Mynwy a Gwy yng ngwanwyn 1936. Roedd y ddwy afon yn enwog iawn am ei gleision y dorlan ond pan ddaeth y lli mawr fe chwalwyd holl nythod yr adar yma ar eu hyd.

Am fod pryder mawr am yr adar comisiynnwyd arolwg gan y Weinyddiaeth Amaeth i asesu'r difrod. Yn rhyfeddol roedd un pâr wedi goroesi ac yn nythu mewn hen bel droed dyllog oedd wedi mynd yn sownd ar gangen coeden uwchben dyfroedd yr Afon Gwy. A pam bod y bêl yno? - Credwyd mai cic go gry' gan rywun o faes peldroed CPD Mynwy (sy'n llifo i'r Afon Gwy) oedd yn gyfrifol a bod hynny wedi achub poblogaeth yr adar ar y ddwy afon. Roedd y stori mor enwog yn yr ardal ar y pryd nes y mabwysiadwyd y deryn fel arwyddlun i'r clwb.

Gweilch, Y – y tîm rygbi proffesiynnol rhanbarthol ddaeth i fodolaeth yn 2003 pan unodd CR Abertawe efo CR Castell Nedd. Mae Gwalch y pysgod yn rhan o arfbais Abertawe.

Mae CPD Gwalchmai hefyd yn cael ei nabod fel Y Gweilch – am resymau amlwg.

Gwylanod – Mae 'na 4 clwb Cymreig efo gwylan ar eu bathodynnau: clybiau pel-droed Bae Colwyn, Hundleton (Sir Benfro) a Syli (cyn iddo ymuno efo Inter Caerdydd) a chlwb rygbi Abergwaun ag Wdig (gw. hefyd *Seahawks*)

Hebogiaid – CR Abertyswg (gw. Clomenod) a hefyd CR (Cyngrair) Sir Fflint.

Jacdoeau – yn enw ar un o dimau pel-droed cynnar Caerffili a hefyd eu tîm rygbi. Yr enw yn cyfeirio at yr holl jacdoeau oedd yn arfer nythu yn waliau castell Caerffili.

Llinosiaid – CPD Barri. Gwyrdd ydy' lliw cit y clwb, sy'n gyfeiriad at liw'r llinos werdd yn hytrach na'r llinos gyffredin.

Piod – yn enw cyffredin ar glybiau sy'n gwisgo cit du a gwyn rhesog, e.e. clybiau pel-droed Y Bermo a Dyffryn, Bow Street (sy' efo pioden ar eu bathodyn ac wedi enwi eu cae chwarae yn Cae Piod), Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llanfyllin a Penfro. Fe geir ambell glwb rygbi hefyd – efo cylchoedd du a gwyn yn lle rhesi – e.e. Y Tymbl (Pioden a chenin Pedr ar eu bathodyn) a'r Fardre (dwy bioden ar eu bathodyn ac, yn debyg i Bow Street, wedi enwi eu cae yn Maes y bioden).

Robin – CPD Wrecsam, er mai coch a gwyn yw lliwiau'r clwb, nid dyna darddiad gwreiddiol yr enw 'The Robins'. Yn hytrach mae'n llysenw oedd yn cyfeirio at reolwr / ysgrifennydd cynnar (1907 - 1924) sef Ted Robinson.

Mae sawl clwb arall wedi arddel yr enw dros y blynyddoedd ar gownt y cit coch a gwyn, e.e. clybiau pel-droed Cenffig, Hwlffordd, Ton-du, Pennar, Knighton (neu y *Radnor Robins*) a'r Drenewydd. Mascot y Drenewydd ydy cymeriad o'r enw *Rocky the Robin*.

Roosters / Rwsters – arwyddlun CPD Penrhyn-coch. CPD Llanrwst yn galw eu hunnain yn *Rwsters* – yn charae ar yr elfen Rwst yn enw'r dre (Llan-(C)rwst).

Seahawks – enw ar ail dîm CR Abergwaun. Enw arall ar walch y pysgod ydy *Seahawk*.

Swifts – amryw o dimau pel-droed yn arddel y wennol ddu fel eu symbol am ei bod mor gyflym a gosgeiddig, e.e.: Caergybi, Llandudno, Monkton (Sir Benfro), Llanarmon (Sir Faesyfed) ac un tîm rygbi: Tenby Swifts.

Tylluanod – CR Brynithel. Pan sefydlwyd y clwb yn 1975 roedden nhw'n arfer colli yn arw – yn aml dros 50 pwynt ymhob gêm. Sylw gan rhywun oedd nad oedd ryfedd am hynny am fod yr hogia yn rhy hoff o yfed tan berfeddion a meddwi'n racs – a'u bod yn ormod o adar y nos, jyst fel tylluanod. Yn dilyn y sylw hwnnw mabwysiadwyd tylluan fel arwyddlun.

Wenoliaid – CPD Llandysul. Dillad glas a hefyd y cae yn agos i'r Afon Teifi lle mae wenoliaid yn bwydo yn niferus iawn.

Ydfrain – CPD Caeriw (Sir Benfro) am fod nythfa fawr o ydfrain yn waliau Castell Caeriw. Mae clybiau hoci a chriced y pentre hefyd yn cael eu galw yn '*the rooks*'. Mi welwn ddwy ydfran ar arwydd CPD Trebanos hefyd.

Yr Atlas Nythu

Ydach chi wedi ordro eich copi o Atlas Adar Nythu Gogledd Cymru? Mae gostyngiad sylweddol yn y pris ar gael = **£20.00 yn lle £45.00** – mi alla'i ordro copi ichi os dymunwch [Twm: 01766 772 610 / twm.elias@eryri-npa.gov.uk], cyn diwedd Awst.

Mae gwahoddiad i ***Gyfranwyr*** i'r Atlas ddod i lawnsiad swyddogol y gyfrol ar nos Fawrth, Hydref 1af, 2013 yn RSPB Conwy



Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

Hydref 2013 – Ionawr 2014

Dydd Sadwrn, Hydref 19eg
Y Gynhadledd Flynyddol : Plas Tan y Bwlch, Maentwrog

Dydd Sadwrn, Tachwedd 2il
Taith : Aber yr Afon Dwyryd, dan arweiniad Huw Dafydd
Cyfarfod 10.30yb : yn yr Ynys, Talsarnau (SH600355)

Dydd Sadwrn, Tachwedd 16eg
Taith : Harbwr Pwllheli a'r cyffiniau, dan arweiniad Gareth a Gwennan
Cyfarfod 10.30yb : ym Maes Parcio'r Marina (SH383350)

Dydd Sadwrn, Tachwedd 30ain
Taith : Crwydro glannau'r Fenai, dan arweiniad Twm Elias
Cyfarfod 10.30yb : ger y Pier, Bangor (SH584)

Nos Fercher, Rhagfyr 11fed
Sgwrs a mins peis
Y Stablau, Plas Tan y Bwlch, am 7.30yh

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 14eg
y Daith Dolig 'draddodiadol' : Port a Borth y Gest, dan arweiniad Twm Elias
Cyfarfod 10.30yb : ger Recordiau'r Cob, Porthmadog (SH571384)

Dydd Sadwrn, Ionawr 11fed = taith 1af 2014 (heb ei phenodi. Unrhyw gynigion?)
Manylion a gweithgareddau gweddill y gaeaf yn rhifyn y Dolig o *Llygad Barcud*

Cerwch i'r wefan am holl ôl-rifynnau Llygad Barcud a lluniau yn yr Oriel
www.cymdeithastedbreezejones.org.uk

Plas Tan y Bwlch
Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri

Pob llwyddiant i

Gymdeithas Ted Breeze Jones
ac i
LLYGAD BARCUD

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig a/neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau gyfarfod yma neu i ymweld gyda'r nos am bryd bwyd a thro rownd y gerddi

Am fwy o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600